

TREFNAU RHEOLI GWAITH MAES

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi Polisi Iechyd a Diogelwch Gwaith Maes y Brifysgol ac yn rhoi arweiniad ar y trefnau y dylai'r colegau eu sefydlu fel bod gwaith maes yn cael ei gynllunio'n addas a'i weithredu'n ddiogel. Mae nifer o lawlyfrau ategol ar gael yn ogystal i roi cyngor ymarferol ar yr hyn y dylai goruchwylwyr academiaidd, arweinwyr a goruchwylwyr gwaith maes ei ystyried wrth gynllunio a chyflawni gwaith maes.

1. DIFFINIADAU

Gellir defnyddio'r diffiniadau canlynol i weithgareddau oddi ar y safle:

	Disgrifiad	Sylwadau / Dyletswyddau
TEITHIAU AC YMWELIADAU UNDYDD CYFFREDINOL:	Taith (mewn grŵp ac yn unigol) i ffwrdd o'r brifysgol i wneud gweithgaredd sy'n gyffredinol ddim yn fwy o risg na bywyd bob dydd	Mae'r daith yn cynnwys risgiau bob dydd e.e. acwariwm / ymweld ag amgueddfa, taith i draeth hawdd ei gyrraedd
GWAITH MAES HYFFORDDDEDIG	Gwaith maes / astudio i ffwrdd o'r brifysgol sy'n cynnwys elfen hyfforddedig ac yn cynnwys lefel o risg sy'n fwy na'r hyn a wynebwr yn gyffredinol mewn bywyd bob dydd a lle bydd staff y brifysgol yn mynd hefyd i gefnogi myfyrwyr (e.e. grŵp/grwpiau o fyfyrwyr sy'n cymryd samplau o blanhigion ar ochr mynydd)	Gweithgareddau gyda risg uchel neu fwy o risg nad ydynt fel arfer yn cael eu gwneud mewn bywyd bob dydd a lle y gall rhai sydd ag ychydig o brofiad neu brofiad cyfyngedig fod mewn risg
GWAITH MAES YMCHWIL	Gwaith maes ymchwil traddodiadol i ffwrdd o'r brifysgol, sydd heb oruchwyliaeth yn gyffredinol, nid yw'n rhan o fodiwl hyfforddedig a gall gynnwys gweithgareddau anarferol neu rai sydd â mwy o risg	Gweithgareddau sydd fel rheol heb eu goruchwyllo a / neu yn weithgareddau risg uchel / yn anghyffredin e.e. cymryd gwenwyn nadroedd, asesu blodau ar wyneb chwarel, cyfweliadau cymdeithasol
GORUCHWYLLWYR ACADEMAIDD	Maent yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl waith maes maent yn ei gyfarwyddo yn cydymffurfio â gofynion y Polisi Gwaith Maes. Diffinnir goruchwylwyr academiaidd fel: <ul style="list-style-type: none"> Trefnydd y modiwl ar gyfer gwaith maes hyfforddedig mewn grwpiau Goruchwylwr y Project i fyfyrwyr israddedig, MSc a MRes Y prif oruchwylwr academiaidd i fyfyrwyr PhD Y Prif Ymchwilydd i'r holl waith maes cysylltiedig ag ymchwil 	Bydd Goruchwylwyr Academiaidd yn awdurdodi yn ôl pob achos unigol ar ôl asesu holl elfennau'r gwaith maes e.e. lleoliad, gweithgaredd, gallu'r rhai sy'n cymryd rhan Deon y Coleg, gan amlaf drwy Bennaeth yr Ysgol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod goruchwylwyr academiaidd yn gymwys i gyfarwyddo gwaith maes
ARWEINWYR GWAITH MAES	Mae arweinwyr gwaith maes cymwys yn hanfodol i'r holl waith maes hyfforddedig mewn grwpiau. Mae arweinwyr gwaith maes yn gyfrifol am weithredu'r rheolaethau a nodir	Rhaid i oruchwylwyr academiaidd fod yn hyderus bod Arweinwyr Gwaith Maes yn gymwys o ran gwybodaeth, profiad a

	<p>yn yr asesiad risg ac am sicrhau iechyd a diogelwch y rhai sy'n cymryd rhan. Mae'r arweinydd gwaith maes hefyd yn gyfrifol am oruchwylio pawb sy'n cymryd rhan yn y gwaith maes. Disgwylir i arweinwyr gwaith maes gymryd yr awenau mewn argyfwng a phenderfynu ar atal neu newid y gwaith maes yn ôl yr angen.</p> <p>Yn aml gall arweinwyr gwaith maes fod yn gysylltiedig â chynllunio ac asesu risg gwaith maes ond y goruchwyliwr academaidd sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r Polisi Gwaith Maes.</p> <p>Lle bo grwpiau o bobl yn gysylltiedig â gwaith maes ymchwil dylid ystyried penodi arweinydd gwaith maes cymwys.</p>	hyfforddiant ffurfiol yn ôl yr angen.
GORUCHWYLLWYR GWAITH MAES	Mae angen Goruchwyllwyr Gwaith Maes yn aml ar gyfer gwaith maes hyfforddedig lle bo'r prif grŵp yn cael ei rannu'n is-grwpiau. Rhaid i'r goruchwyllwyr gwaith maes fod yn gymwys i oruchwylio'r is-grwpiau hyn o dan gyfarwyddyd arweinydd y gwaith maes a chyda'i gefnogaeth.	Mae'r goruchwyllwyr academaidd yn gyfrifol am sicrhau bod Goruchwyllwyr Gwaith Maes yn gymwys a'u bod yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
GWEITHWYR MAES	Mae Gweithwyr Maes yn cynnwys y rhai sydd o dan oruchwyliaeth a'r rhai sy'n gweithio'n annibynnol o oruchwyliaeth uniongyrchol mewn gweithgaredd maes.	Rhaid i oruchwylwyr academaidd fod yn hyderus bod gan unrhyw unigolyn sy'n gweithio'n annibynnol y sgiliau a'r profiad i gyflawni'r gweithgaredd gwaith maes yn y lleoliad a ymwelir, yn cynnwys ymateb i unrhyw argyfwng a all godi.

2. CYMHWYSEDD GORUCHWYLLWYR ACADEMAIDD, ARWEINWYR A GORUCHWYLLWYR GWAITH MAES

Rhaid i oruchwylwyr academaidd, arweinwyr a goruchwylwyr gwaith maes ddeall cyfyngiadau eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain, a gofyn am gyngor neu gymorth gan eraill fel bo'r angen.

Er mwyn diogelu iechyd a diogelwch gweithwyr maes efallai y bydd angen i golegau ac ysgolion drefnu hyfforddiant ychwanegol a/neu wybodaeth i oruchwylwyr academaidd, arweinwyr gwaith maes a goruchwylwyr gwaith maes. Ym mhob achos dylai hyn gyfateb â lefel y risg ac mewn rhai amgylchiadau gall gynnwys cymwysterau ffurfiol fel hyfforddiant arweinwyr mynydd.

Gallai hyfforddiant hefyd fod ar ffurf mynd gydag aelod staff profiadol ar waith maes fel y gall yr unigolyn arwain taith yn y dyfodol. Yn yr un modd, gall ymchwilydd newydd neu gymharol ddibrofiad sy'n ymweld ag ardal anghyfarwydd gael budd o sesiwn wybodaeth ffurfiol gan unigolyn mwy profiadol ar ystyriaethau diogelwch gwaith maes.

Hefyd cynghorir colegau i gynnwys unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol yn ystod adolygiadau datblygu perfformiad blynyddol i sicrhau bod sgiliau goruchwylwyr academiaidd, arweinwyr a goruchwylwyr gwaith maes yn parhau'n berthnasol.

Fel gydag unrhyw hyfforddiant cysylltiedig â gwaith, dylai cofnodion am unrhyw hyfforddiant gael eu cadw gan y coleg.

3. AWDURDODIAD

Rhaid i golegau ddatblygu proses cymeradwyo gwaith maes clir ac ysgrifenedig. Dylai'r trefniadau sicrhau:

- i. Caiff yr holl waith maes ei gefnogi fel y bo'n briodol gan Asesiadau Risg addas a digonol.
- ii. Bod pawb sy'n gysylltiedig â'r broses gymeradwyo yn deall ac yn derbyn eu rôl, yn cynnwys y ddyletswydd i wahardd gwaith maes anniogel a grym eu hawdurdod i gymeradwyo.
- iii. Y gofynnir am gyngor priodol o'r sefydliad yn ôl yr angen.
- iv. Y cydymffurfir gyda gofynion penodol Polisiâu Moeseg a Theithio Tramor y Brifysgol a gofynion deddfwriaeth eraill sy'n berthnasol i'r gwaith maes.
- v. Gall cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl os bydd y risgiau'n cynyddu ac ni ellir eu rheoli.

Math o Waith Maes	Awdurdodi	Asesiad Risg ¹
TEITHIAU AC YMWELIADAU UNDYDD CYFFREDINOL GWAITH MAES HYFFORDEDIG	Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o waith maes tebyg wedi'i awdurdodi'n gyffredinol gan Ddeon y Coleg, gan amlaf drwy Bennaeth yr Ysgol	Teithiau Undydd: <input type="checkbox"/> Adolygu ac addasu templedi Asesiadau Risg Gwaith maes hyfforddedig: Addasu templedi Asesiadau Risg fel y bo'n briodol, neu gynnal asesiad penodol Dylid adolygu Asesiadau Risg yn rheolaidd gan ddsbarthu'r dogfennau diwygiedig i unigolion perthnasol
GWAITH MAES YMCHWIL	Rhagwelir y bydd Deon y Coleg yn dirprwyo dyletswyddau i oruchwylwyr academiaidd. Bydd goruchwylwyr academiaidd yn awdurdodi yn ôl pob achos unigol ar ôl asesu holl elfennau'r gwaith maes e.e. lleoliad, gweithgaredd ymchwil, cymorth mewn argyfwng, gallu'r rhai sy'n cymryd rhan	Rhaid darparu Asesiad Risg penodol i gefnogi'r cais am waith maes
GWAITH MAES TRAMOR	Fel y nodir uchod ynghyd â chadw at ofynion y Polisi Teithio Tramor	Fel y nodir uchod ynghyd â chadw at ofynion y Polisi Teithio Tramor

¹ Gweler y Llawlyfr perthnasol

4. GORUCHWYLIAETH

Dylid cofio bod myfyrwyr yn oedolion ac yn y rhan fwyaf o achosion byddant yn gwneud gweithgareddau nad ydynt yn golygu mwy o risg na'r rhai a gysylltir gyda bywyd bob dydd. Gan hynny, rhagwelir y bydd cymarebau ar gyfer y rhan fwyaf o oruchwylio gwaith maes yn cael eu penderfynu gan anghenion academaidd i sicrhau y cyflawnir deilliannau dysgu ac addysgu. Mewn rhai achosion efallai bydd angen cynyddu'r cymarebau os dynodir risgiau iechyd a diogelwch penodol na ellir eu rheoli'n addas gan nifer y goruchwylwyr sydd eisoes wedi'u penodi i gyflawni anghenion academaidd.

Dylid rhoi gwybod i'r rhai sy'n cymryd rhan am gyfnodau lle na roddir goruchwyliaeth e.e. 'amser rhydd' gan egluro manylion am unrhyw reoliadau neu gyfyngiadau.

Os caiff gwaith maes ei wneud yn annibynnol, rhaid i golegau sicrhau cysylltiad rheolaidd gyda gweithwyr maes i gadarnhau trefniadau a bod y rheoliadau yn addas ac yn cael eu dilyn.

5. HYFFORDDIANT A GWYBODAETH - GWEITHWYR MAES

Rhaid i golegau sicrhau bod gweithwyr maes yn derbyn hyfforddiant, gwybodaeth a chyfarwyddyd priodol i wneud gwaith maes yn ddiogel yn cynnwys, er enghraifft, sut i gymryd samplau a defnyddio offer maes yn gywir. Mae nodi beth sydd angen ei ddarparu cyn y daith a beth sydd angen ei ddarparu ar y safle yn hanfodol i sicrhau y gellir gwneud trefniadau priodol. Dylid cadw cofnodion am unrhyw wybodaeth neu hyfforddiant a roddir.

6. YSTYRIAETHAU MOESGOL

Mae'n rhaid i golegau sicrhau bod yr holl waith maes yn cydymffurfio gyda Pholisïau Moesgol y brifysgol a'r coleg a threfniadau cymeradwyo.

7. YSTYRIAETHAU ERAILL

Mae'n rhaid i golegau sicrhau y nodir gofynion perthnasol eraill ac y cydymffurfir â hwy. Gall y rhain gynnwys cyfyngiadau mynediad ar dir a reolir gan gyrff cyhoeddus, trwyddedau sydd eu hangen i gasglu samplau a chaniatâd yr awdurdod perthnasol os yw'r rhywogaethau neu'r ardal a astudir wedi'u gwarchod.

Wrth weithio dramor mae gwybodaeth am ddeddfwriaeth leol ynghyd â dealltwriaeth o draddodiadau ac arferion lleol yn hanfodol. Os ydych yn bwriadu ymgymryd â gwaith mewn gwledydd sy'n destun sancsiynau gwleidyddol neu foicotiau dylid cysylltu â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen cymeradwyaeth gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol i deithio a gweithio mewn gwledydd sydd dan sancsiynau.

8. COSTAU

Dylai colegau sicrhau bod costau iechyd a diogelwch gwaith maes yn cael eu cynnwys mewn unrhyw amcangyfrif neu gais am grant e.e. offer diogelwch, hyfforddiant, dillad. Hefyd, lle bynnag y bo modd, dylai colegau nodi a rhoi gwybod i fyfyrwyr ar ddechrau pob blwyddyn academaidd am unrhyw gostau rhagweladwy i fyfyrwyr.

9. COD YMDDYGIAD

Gall colegau sefydlu Cod Ymarfer yn rhoi manylion am y safonau ymddygiad cyffredinol a ddisgwylir gan y rhai sy'n cymryd rhan yn cynnwys y camau disgyblu os torrir y rheolau.

Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan gael gwybod am ofynion ychwanegol a phenodol gwaith maes yn ôl pob achos yn unigol. Er enghraifft, gwisg benodol os ydych yn ymweld ag ardal sy'n sensitif yn ddiwylliannol.

10. IECHYD A LLES GWEITHWYR MAES (gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig)

Rhaid ceisio sicrhau bod gwaith maes yn gynhwysol a galluogi pob myfyriwr ac aelod staff i gymryd rhan.

Mae'n bwysig bod gweithwyr maes yn cael eu hannog i ddatgelu gwybodaeth berthnasol fel y gellir trefnu cefnogaeth / addasiadau priodol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y myfyriwr yn ystod y daith maes. Yn dibynnu ar natur y gwaith maes, efallai bydd angen i golegau ddatblygu system lle bo darpar weithwyr maes yn llenwi a llofnodi Ffurflen Cyfranogwyr Gwaith Maes (mae enghreifftiau ar gael ar y wefan Iechyd a Diogelwch). Dylid gwirio'r wybodaeth cyn y daith maes i gasglu gwybodaeth am anghenion unigol.

Gall Gwasanaethau Myfyriwr roi cyngor penodol i golegau am faterion yn ymwneud ag iechyd myfyriwr. Gall Llywodraethu a Chydymffurfio, Iechyd a Diogelwch gynghori yn achos staff.

SYLWCH: Mae'n rhaid ei gwneud yn glir pa bryd a gyda phwy y caiff y wybodaeth ar ffurflenni'r cyfranogwyr ei rhannu. Rhaid i'r holl wybodaeth gael ei chadw'n unol â Pholisi Diogelu Data'r brifysgol.

11. PLANT (dan 18 oed) / UNIGOLION AGORED I NIWED

Rhaid i'r colegau weithredu trefniadau perthnasol y brifysgol i ddiogelu plant ac unigolion sy'n agored i niwed. Gellir gofyn am gyngor pellach gan y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio.

12. DARPARWYR TRYDYDD PARTI

Rhaid i golegau sefydlu systemau i sicrhau y gwneir asesiad risg o gymhwysedd darparwyr trydydd parti. Os yw'r trydydd parti i ddarparu gwasanaeth sy'n golygu risg uchel neu fwy o risg na wynebir fel arfer mewn bywyd bob dydd, er enghraifft gweithgareddau awyr agored, dylai Colegau wneud asesiad mwy manwl o addasrwydd a chymhwysedd y trydydd parti. Bydd hwn yn cynnwys adolygu eu Hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, gwirio a fu unrhyw gamau gorfodi yn y gorffennol, achrediad â chyrrff llywodraethu perthnasol a'r trefniadau rheoli penodol dros eu gwasanaeth, yn cynnwys Asesiadau Risg.

Dylid hefyd cadarnhau cyfrifoldebau ynglŷn â goruchwyllo yn ystod y gweithgaredd a darparu offer arbenigol, hyfforddiant etc. cyn y daith gan gadarnhau trefniadau yn ysgrifenedig.

13. LLETY

Dylai colegau sicrhau y gwneir gwiriadau addas o unrhyw lety ar gyfer y gwaith maes. Ond gan y derbynir y gall costau ddylanwadu ar safon y llety, dylid gweithredu'n ymarferol a gwneud gwiriadau tebyg i'r rhai a wneir wrth archebu llety personol. Gall gwiriadau gynnwys archebu trwy ddarparwr sefydledig, gan sicrhau bod y llety mewn lleoliad diogel ac yn agos i safle'r gwaith maes gyda chyfleusterau addas i bawb sy'n cymryd rhan.

Dylid gwirio'r safonau yn gyffredinol ar ôl cyrraedd, e.e. trefniadau tân a glendid, a dylid chwilio am lety arall ar unwaith os bernir bod y llety yn peri risg.

SYLWCH: Anogir chi i beidio â defnyddio darparwyr llety preifat fel *Airbnb* ac mae angen cymeradwyaeth y Swyddfa Gyllid cyn archebu drwy unrhyw ddarparwr o'r fath.

14. TEITHIO AR Y FFORDD

Rhaid i bob coleg ddilyn Polisi Gyrrwyr a Cherbydau'r Brifysgol, y Polisi Diogelwch Bysiau Mini a gofynion yswiriant penodol y Swyddfa Gyllid wrth deithio ar ffyrdd.

Awgrymir y defnyddir cludiant cyhoeddus neu ddarparwyr fel cwmni bysiau sydd wedi'u trwyddedu neu eu hachredu'n arbennig ar gyfer teithiau grŵp, lle bynnag y bo modd.

Dylai colegau fod yn ofalus iawn o sefyllfaoedd anodd fel gyrru cerbydau anghyfarwydd, gyrru mewn tirwedd anghyfarwydd a lle bo amodau ac arferion gyrru yn eithriadol o wahanol, er enghraifft gyrru dramor. Mewn achosion o'r fath rhaid rhoi ystyriaeth benodol i'r risgiau i'r gyrrwr a'r cerbyd fel rhan o Asesiad Risg gwaith maes, ac argymhellir, fel dewis arall, llogi cerbyd a gyrrwr gan sefydliad addas. Dylai'r Bwrdd Croeso Lleol neu'r sefydliad derbyn allu rhoi cyngor am ddarparwyr addas os ydych yn cynllunio gyrru dramor.

15. TEITHIO DRAMOR

Rhaid i'r holl deithiau tramor gael eu gwneud yn unol â Pholisi Teithio Dramor y Brifysgol sy'n cynnwys system ar-lein, gyda chefnogaeth proses Asesu Risg i sicrhau bod polisi yswiriant priodol y brifysgol yn ei le. Gweler 7. uchod ynghylch Sanctsiynau.

16. ASESIAID RISG

Rhaid i'r colegau sicrhau bod gan y sawl sy'n arwain gwaith maes hyfforddedig asesiad risg addas a digonol (yn cynnwys addasu templedi Asesiad Risg) ar gyfer eu gweithgareddau gyda gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhoi yn brydlon i'r rhai sy'n cymryd rhan a phartion perthnasol eraill. Dylid annog y rhai sy'n cymryd rhan i fod yn rhan o'r broses hon i ddatblygu sgiliau rheoli gwaith maes.

Yn achos Gwaith Maes Ymchwil, rhaid i'r colegau sicrhau bod staff neu fyfyrwyr sy'n gwneud gweithgareddau o'r fath yn cyflwyno Asesiad Risg i'w goruchwyliwr academiaidd i'w gymeradwyo cyn i'r gweithgareddau ddechrau.

Mae'n hollbwysig bod Asesiadau Risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, e.e. cyn cynnal gwaith maes, i gadarnhau bod manylion yn parhau'n berthnasol. Dylid cadw manylion am unrhyw welliannau, h.y. dyddiad a rhif y fersiwn i olrhain unrhyw ddiweddariadau gan roi gwybod am unrhyw ddogfennau sydd wedi'u diweddarau yn ôl yr angen.

Dylid hefyd sefydlu systemau i gadw gwybodaeth berthnasol yn ganolog fel na chollir gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr os bydd goruchwyliwr academiaidd, arweinydd neu oruchwyliwr gwaith maes yn gadael y brifysgol.

17. YSWIRIANT

Dylai colegau sicrhau bod unigolion perthnasol yn ymwybodol, os yw'r gwaith maes yn cynnwys gweithgaredd anarferol neu risg uchel, neu os oes gan unigolyn anghenion meddygol penodol, parhaus, y dylent ofyn am gyngor Swyddog Yswiriant y Brifysgol i gadarnhau bod yswiriant priodol ar waith.

SYLWCH: Dylid atgoffa gweithwyr maes y bydd rhaid iddynt drefnu 'yswiriant personol' am unrhyw weithgareddau y byddant eisiau eu cyflawni yn ystod eu 'hamser rhydd' dros gyfnod y gwaith maes.

18. TREFNIADAU BRYD

Rhaid i golegau sicrhau bod trefnau bryd addas ar waith ar gyfer gweithgareddau gwaith maes. Mae hyn yn cynnwys nodi'r ddarpariaeth cymorth cyntaf, sut rhoddir gwybod am unrhyw argyfwng, rhifau cyswllt mewn argyfwng (lleol, yn y brifysgol, tu allan i oriau) etc.

Dylid llenwi Ffurflen Cofrestru Taith (Cofrestr Cyfranogwyr) ar gyfer teithiau grŵp gan fynd â chopi ar y daith, gyda chopi'n cael ei gadw'n lleol gyda'r coleg neu swyddogion diogelwch y brifysgol os yn bosibl.

SYLWCH: Rhaid cofnodi pob digwyddiad ar y Ffurflen Damweiniau a Digwyddiadau yn unol â threfniadau cofnodi'r Coleg a'r Brifysgol.

19. ADOLYGU / MONITRO

Dylai colegau ddatblygu dull o dderbyn adborth gan fyfyrwyr i asesu a yw'r gwaith maes yn cyflawni anghenion myfyrwyr ac i nodi unrhyw bryderon.

Damweiniau cysylltiedig â gwaith maes; dylid hefyd ymchwilio i ddigwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd yn unol â pholisïau a threfnau'r brifysgol, gan gofnodi a dilyn hynt unrhyw argymhellion / camau i'w cymryd neu wersi i'w dysgu hyd nes eu bod yn cael eu cwblhau.

Dylai Colegau hefyd adolygu gwaith maes ac asesiadau risg cysylltiedig yn achlysurol ynghyd ag adborth myfyrwyr gan gydlynu sylwadau ac awgrymiadau er mwyn cyfeirio unrhyw newidiadau ym mholisi'r Coleg. Fel rhan o'r broses hon mae'n bwysig bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei hanfon at Iechyd a Diogelwch fel y gellir rhannu'r gwersi a ddysgwyd ar draws y brifysgol, gan wneud newidiadau i bolisïau a threfnau canolog y brifysgol os oes angen.

Hefyd, bydd Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â'r Polisi Iechyd a Diogelwch Gwaith Maes a chyda'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol.